# Trefniadau Craffu

Cyngor Bro Morgannwg

Mehefin 2026

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn
fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau allweddol | 5 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 11 |
| Atodiadau | 12 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 13 |
| 2 Amdanom ni | 15 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Gwnaethom edrych ar a oes gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi craffu effeithiol. Gwnaethom ystyried hefyd y cynnydd y mae'r Cyngor wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella sydd yn ein hadroddiad 2018, 'Cyngor Bro Morgannwg – Trosolwg a Chraffu – Addas ar gyfer y Dyfodol?'.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Mae craffu effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor. Gall craffu ddarparu dulliau rhwystro i wneuthurwyr penderfyniadau, gan sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau yn dryloyw, a chan helpu i wella gwasanaethau y Cyngor.

3 Gall craffu fod â swyddogaeth bwysig i'w chwarae hefyd wrth gyfrannu at ddatblygu polisïau, monitro perfformiad a helpu i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

4 Yn gyffredinol, canfuom fod y Cyngor wedi cymryd camau i gryfhau ei drefniadau craffu. Ond nid yw diben ac effaith arfaethedig gweithgarwch craffu yn glir bob amser, ac mae hyn yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd.

## Yr hyn a argymhellir gennym

5 Gwnaethom un argymhelliad i'r Cyngor sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod swyddogaeth a diben craffu yn cael eu deall a'u hadlewyrchu'n glir mewn ymarfer craffu, a bod effeithiolrwydd ei drefniadau craffu yn cael ei werthuso'n rheolaidd.

# Ffeithiau allweddol

Cafodd y Cyngor Asesiad Perfformiad y Panel ym mis Tachwedd 2024. Argymhellodd yr asesiad y dylai'r Cyngor: 'gwella effeithiolrwydd ei drefniadau craffu, yn benodol cyfarfodydd pwyllgor, drwy asesu arferion cyfredol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau i'w gwneud yn fwy effeithiol'.

Nododd y Cyngor ei ymateb i argymhelliad Asesiad Perfformiad y Panel yn ffurfiol ym mis Chwefror 2025 a gweithredodd ei gynigion Ail-lunio Craffu ym mis Ebrill 2025, yn dilyn cyfres o weithgareddau ymgynghori â chynghorwyr.

Arweiniodd rhaglen Ail-lunio Craffu y Cyngor at newidiadau i nifer, aelodaeth a chylch gorchwyl ei bwyllgorau craffu, a phwyslais o'r newydd ar waith grŵp gorchwyl a gorffen ochr yn ochr â newidiadau i ffyrdd o weithio. Nid yw pwyllgorau craffu yn derbyn adroddiadau er gwybodaeth mwyach. Arweiniodd y newidiadau hefyd at ddull adnewyddedig o hyfforddi aelodau, o rannu gwybodaeth ac o werthuso craffu.

Mae grwpiau Gorchwyl a Gorffen wedi eu sefydlu fel y gall aelodau pwyllgorau craffu ganolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol yn fwy manwl y tu allan i bwyllgorau ffurfiol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gynghorwyr ymgysylltu ag ystod ehangach o randdeiliaid.

# Ein canfyddiadau

## Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir, ond nis deellir yn llwyr bob amser yn ymarferol

6 Nodir swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir yng nghyfansoddiad a pholisïau y Cyngor. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw cynghorwyr a swyddogion yn dangos eu bod yn glir bob amser ynghylch swyddogaeth craffu.

7 Er enghraifft, nid yw Aelodau y Cabinet yn cyflwyno eu hadroddiadau i bwyllgorau craffu bob amser, ac mae cwestiynau pwyllgor yn tueddu i gael eu cyfeirio at swyddogion. Felly nid yw'n glir sut y mae aelodau craffu yn dwyn Aelodau y Cabinet i gyfrif. Cynhelir cynadleddau agenda i baratoi ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor. Maent yn rhoi cyfle i'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r swyddogion drafod diben yr adroddiadau, er nad ydynt yn cael eu cynnal ar gyfer pob pwyllgor. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau a gyflwynir i bwyllgorau craffu yn esbonio beth yw swyddogaeth y pwyllgor bob amser a beth y disgwylir iddynt ei wneud â'r wybodaeth sydd o'u blaenau. Hefyd, nid yw argymhellion pwyllgorau craffu i'r Cabinet yn glir bob amser ynghylch yr hyn maent yn gofyn i'r Cabinet ei wneud neu ei wneud yn wahanol.

8 Gall nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir helpu i sicrhau bod craffu yn canolbwyntio ar y pynciau cywir, yn gofyn y cwestiynau cywir ac yn gwneud argymhellion cadarn. Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau uchod yn awgrymu nad yw aelodau'r craffu a'r sefydliad ehangach yn glir yn ymarferol bob amser ynghylch beth yw swyddogaeth craffu, yn enwedig mewn cysylltiad ag adroddiadau penodol. Mae hyn yn cynyddu'r risg nad yw gweithgarwch craffu yn cael effaith bob amser.

## Mae'r Cyngor yn darparu ystod eang o gymorth a hyfforddiant i aelodau pwyllgorau craffu, ond yn eu dyddiau cynnar o hyd y mae'r trefniadau i werthuso hyn

9 Mae Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion Cymorth Craffu yn darparu ystod eang o gymorth i gadeiryddion, is-gadeiryddion a phwyllgorau craffu. Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi aelodau pwyllgorau craffu drwy sesiynau briffio a darpariaeth hyfforddiant arall
- cyngor a chymorth i gadeiryddion yn ystod a thu allan i gyfarfodydd pwyllgor
- gweithio gydag aelodau pwyllgorau craffu i ddatblygu blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu
- darparu ymchwil i gefnogi ymholiadau grwpiau gorchwyl a gorffen.

10 Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i gynghorwyr a sesiynau briffio aelodau ar ystod o bynciau. Er nad yw'r rhaglen hyfforddi ar gyfer cynghorwyr ar gyfer craffu yn benodol, dywedodd sawl cynghorydd wrthym eu bod yn gweld yr wybodaeth yn ddefnyddiol yn eu swyddogaethau craffu oherwydd ei bod yn cynyddu eu gwybodaeth am ystod o bynciau.

11 Roedd rhaglen gynefino y Cyngor ar gyfer cynghorwyr newydd yn cynnwys gwybodaeth benodol am y broses graffu. Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar eu swyddogaethau. Dywedodd cynghorwyr wrthym eu bod wedi gweld yr hyfforddiant hwnnw'n ddefnyddiol.

12 Mae gan y Cyngor rai trefniadau ar waith i gasglu gwybodaeth am effeithiolrwydd yr hyfforddiant a'r cymorth y mae'n ei gynnig i gynghorwyr. Mae wedi datblygu'r trefniadau hyn ymhellach yn rhan o'i waith Ail-lunio Craffu. Fodd bynnag, ers y newidiadau sy'n gysylltiedig â rhaglen Ail-lunio Craffu, nid yw'r Cyngor wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei ddarpariaeth hyfforddiant i gynghorwyr yn ffurfiol eto. Mae ein sylwadau am swyddogaethau a chyfrifoldebau yn awgrymu bod cyfleoedd i egluro swyddogaeth ac effaith arfaethedig gweithgarwch craffu.

## Mae’r Cyngor wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ymgysylltu â’r cyhoedd mewn gweithgarwch craffu

13 Mae’r Cyngor yn cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o weithgareddau craffu ac i gynyddu eu cyfranogiad ynddynt. Er enghraifft, mae ei dudalennau gwe yn nodi sut y gall y cyhoedd chwarae rhan yn y broses graffu, gan gynnwys siarad mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu. Mae’r trefniadau hyn yn cael eu hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Mae enghreifftiau diweddar o aelodau y cyhoedd yn siarad mewn cyfarfodydd pwyllgor.

14 Mae’r Cyngor hefyd wedi datblygu ffurflen ar-lein fel y gall unrhyw un sy’n byw neu’n gweithio yn ardal y Cyngor awgrymu pynciau posibl i’r pwyllgorau craffu eu trafod. Mae’r Cyngor wedi derbyn awgrymiadau ar gyfer oddeutu 30 o bynciau craffu drwy’r dull hwn.

15 Hefyd, mae gan rai pwyllgorau craffu aelodau cyfetholedig anstatudol i gynrychioli safbwyntiau grwpiau penodol, megis pobl ifanc. Mae sawl grŵp gorchwyl a gorffen hefyd sydd wedi ceisio safbwyntiau y cyhoedd. Roedd cynghorwyr yn teimlo bod hyn wedi bod yn ffordd dda o ennyn diddordeb pobl mewn trafodaethau adeiladol.

16 Trwy gael trefniadau ar waith i annog y cyhoedd i gyfrannu at waith craffu, mae’n fwy tebygol y bydd y craffu yn ystyried ystod eang o safbwyntiau wrth ddewis pynciau i graffu arnynt a/neu wrth ddod i ganfyddiadau a gwneud argymhellion. Yn ei dro, gall hyn helpu i wella effeithiolrwydd y swyddogaeth graffu a chan hynny benderfyniadau y Cyngor.

## Nid yw effaith arfaethedig gweithgarwch craffu yn glir bob amser

17 Nid yw'r Cyngor yn mynegi'n glir ddiben ac effaith gweithgarwch craffu penodol bob amser. Er enghraifft, nid yw adroddiadau i bwyllgorau yn nodi diben y gwaith craffu bob amser wrth ystyried eitem. Mae ein harsylwadau o gyfarfodydd pwyllgor yn awgrymu, mewn rhai achosion, efallai nad yw aelodau y pwyllgor yn glir ynghylch pam y mae eitemau penodol yn cael eu hystyried.

18 Mae aelodau craffu yn chwarae rhan yn y broses o ddewis eitemau ar gyfer eu rhaglenni gwaith. Mae trafodaethau y gwnaethom eu harsylwi mewn cyfarfodydd pwyllgor yn dangos bod aelodau pwyllgor yn cydnabod yr angen i ystyried cwmpas, adnoddau, amserlenni a methodoleg wrth ddewis pynciau.

19 Os nad yw'n glir pam y mae pynciau yn cael eu dewis, mae'n anodd deall canlyniad arfaethedig gweithgarwch craffu, ac mae hyn yn cynyddu'r risg y bydd y gweithgarwch hwnnw'n aneffeithiol.

## Mae'r Cyngor wedi newid ei drefniadau craffu yn ddiweddar, ond nid yw wedi asesu pa mor effeithiol ydynt eto

20 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella ei drefniadau craffu. Er enghraifft:

- datblygodd ei gynigion 'Ail-lunio Craffu' yn dilyn gwerthusiad cynhwysfawr o'i drefniadau craffu
- disodlodd ei Arolwg Blynyddol o Effaith Craffu ag Arolwg Blynyddol o Aelodau, sy'n dal i ofyn i gynghorwyr am eu profiadau o graffu ond sydd bellach yn cwmpasu materion ehangach hefyd megis hyfforddiant a chymorth
- mae wedi newid templed ei adroddiad craffu blynyddol ar gyfer 2025-26.

21 Roedd y cynghorwyr a'r swyddogion y buom yn siarad â nhw yn frwdfrydig yn gyffredinol am y newidiadau diweddar i drefniadau craffu y Cyngor.

22 Mae’r Cyngor yn monitro ei gynnydd o’i gymharu ag argymhellion Asesiad Perfformiad y Panel, gan gynnwys yr argymhelliad sy’n berthnasol i’r broses graffu, yn rhan o’i drefniadau rheoli perfformiad. Mae hyn yn cynnwys ystyried adroddiadau perfformiad mewn sesiynau craffu Perfformiad ar y Cyd a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn olrhain argymhellion gan gyrff adolygu allanol.

23 Mae’r Cyngor yn bwriadu dechrau gwerthuso ei bwyllgorau, gan gynnwys ei bwyllgorau craffu, yn barhaus. Mae’n bwriadu gwneud hyn drwy gefnogi cynghorwyr i fyfyrio ar effeithiolrwydd cyfarfodydd pwyllgor penodol a thrwy gyflwyno hunanasesiadau blynyddol ar gyfer pob pwyllgor. Mae hefyd yn bwriadu cyflwyno myfyrio ar y broses a’r gwersi a ddysgwyd fel eitem safonol ar gyfer cyfarfodydd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu. Gan mai yn eu dyddiau cynnar o hyd y mae’r trefniadau hyn, ni all y Cyngor ddangos eto a ydynt yn effeithiol. Bydd hefyd yn bwysig bod yn glir ynghylch diben eitemau craffu a’r canlyniadau y mae pwyllgorau craffu yn ceisio eu cyflawni er mwyn helpu i lywio unrhyw werthusiad o’u heffeithiolrwydd.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor sicrhau bod cynghorwyr a swyddogion yn deall swyddogaeth a diben craffu yn glir a bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn arferion craffu. Dylai hyn gynnwys:

- sicrhau bod dealltwriaeth clir ac a rennir o swyddogaeth aelodau y cabinet mewn cysylltiad â phwyllgorau craffu a gweithgarwch craffu yn fwy cyffredinol
- sicrhau bod swyddogaeth a diben penodol gweithgarwch craffu yn cael eu nodi'n glir ar gyfer pob pwnc craffu, gan gynnwys y canlyniadau arfaethedig
- sicrhau bod argymhellion pwyllgorau craffu i'r Cabinet yn glir ynghylch y camau yr hoffent i'r Cabinet eu cymryd
- sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddatblygu ei drefniadau gwerthuso craffu, mae'r trefniadau hyn yn ei alluogi i ddeall effaith gweithgarwch craffu.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Adolygodd yr archwiliad drefniadau y Cyngor er mwyn cefnogi ei swyddogaeth graffu. Edrychodd hefyd ar gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad yn 2018.

Nid oedd yr archwiliad yn cwmpasu swyddogaethau adolygu eraill y Cyngor, megis y rhai a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gwnaethom ymgymryd â'r archwiliad yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Roedd yr archwiliad yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

- A yw'r Cyngor wedi nodi'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yn glir i'r rhai sy'n ymwneud â'i drefniadau trosolwg a chraffu?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gefnogi aelodau a swyddogion ei bwyllgor craffu?
- A yw'r swyddogaeth graffu yn blaenoriaethu ac yn cynllunio ei weithgareddau er mwyn cyflawni'r effaith a fwriedir?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i hwyluso cyfranogiad y cyhoedd yn ei drefniadau craffu?
- A yw trefniadau craffu y Cyngor yn gweithio'n effeithiol er mwyn galluogi'r pwyllgorau craffu i gyflawni eu swyddogaeth ac i gyflawni'r effaith a fwriedir?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i werthuso effeithiolrwydd y broses graffu?

## Meini prawf

Er mwyn ein helpu i asesu effeithiolrwydd trefniadau y Cyngor, rydym wedi datblygu meini prawf yn seiliedig ar 'Papur Trafod: Chwe thema er mwyn helpu i wneud craffu yn 'Barod at y Dyfodol'' yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhestr wirio o Chwe cham i helpu i wneud gwaith craffu yn 'Addas at y Dyfodol' fel dogfennau cyfeirio.

# Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau, er enghraifft, papurau pwyllgor, canllawiau i gynghorwyr, a deunyddiau hyfforddi
- arsylwadau o sampl o gyfarfodydd pwyllgor craffu
- cyfweliadau gyda swyddogion allweddol a chynghorwyr.

# 2 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni eu gwaith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.